# NEW RULES

## ALL YOU NEED TO KNOW

- If you are already recycling then the new rules are unlikely to affect you
- It is estimated that 80% of household waste is recyclable
- Under the new rules households can put out 2 standard black bags or a wheelie bin (bin lid MUST close).
- Whether you put out two standard bin bags in the Rhondda or a 120L bin in Cynon/Taf, your refuse limit is the same.
- The Council no longer issues 240L bins and any resident requesting a replacement will receive a standard 120L bin in its place. It would be too costly for us to recall bins and replace them with a 120L bin. ALL 240L bins will be phased out over time.
- Fines will only be issued as a last resort to those who continuously refuse to recycle.
- There is a CLEAR A-Z recycling search tool available at www.rctcbc.gov.uk/recycling which details the items than can and can't be recycled and where you need to take them.
- Community Recycling Centres are open from 8am until 7.30pm, 7 days a week (March – November) and accept recyclable material that cannot be left at kerbside, such as mattresses, electrical items, wood, batteries, large sheets of polystyrene, plastic garden toys and more.
- Community Recycling Centres DO accept non-recyclable waste, but site staff do have the right to inspect any bags and you will be asked to sort any recyclable items found before they will be accepted.
- Fly-tipping will not be tolerated in Rhondda Cynon Taf and if you choose to do this, you will get caught and face a large fine.
- If you have personal circumstances that make it hard for you to stay within your fortnightly limit, please make contact with us so we can do what we can to assist. We are committed to being as flexible and accommodating as we can be in genuine circumstances, please contact us as soon as possible – email Customerservices@rctcbc.gov.uk or call 01443 425001

**THE CHOICE IS CLEAR. RCTCBC.GOV.UK/RECYCLING**

RHONDDA CYNON TAF

# Y RHEOLAU NEWYDD

## POPETH SYDD ANGEN I CHI'I WYBOD

- Os ydych chi'n ailgylchu'n barod, mae'n annhebygol y bydd y rheolau newydd yn effeithio arnoch chi.
- Yn ôl amcangyfrifon, mae modd ailgylchu tua 80% o holl wastraff y cartref.
- O dan y rheolau newydd, bydd modd i gartrefi rhoi 2 fag 60 litr neu fin ar olwynion allan - rhaid sicrhau bod modd cau'r bin.
- P'un ai'ch bod chi'n rhoi dau fag 60 litr allan yng Nghwm Rhondda neu fin 120 litr yng Nghwm Cynon/Taf-elái, yr un yw'r cyfyngiad.
- Dyw'r Cyngor ddim yn dosbarthu biniau 240 litr mwyach, a byddwn ni'n rhoi bin 120 litr safonol i unrhyw breswylydd sy'n gofyn am fin newydd i gymryd lle hen fin. Byddai'n rhy gostus inni fynd o gwmpas i gasglu'r biniau a rhoi bin 120 litr yn eu lle. Byddwn ni'n cael gwared â PHOB bin 240 litr yn raddol.
- Bydd y Cyngor ond yn cyflwyno dirwyon i bobl sy'n gwrthod ailgylchu byth a hefyd. Dyma fydd y cam olaf.
- Mae Canllawiau Ailgylchu A i Y Clir ar ein gwefan www.rctcbc.gov.uk/ailgylchu. Mae'r cyfleuster yma'n nodi'r eitemau mae modd/does dim modd eu hailgylchu, ac i ble bydd eisiau i chi fynd â nhw.
- Mae Canolfannau Ailgylchu yn y Gymuned ar agor rhwng 8am a 7.30pm, 7 niwrnod yr wythnos (Mawrth – Tachwedd). Mae'r rhain yn derbyn deunyddiau nad oes modd eu casglu wrth ymyl y ffordd, megis matresi, eitemau trydan, pren, batrîs, dalennau hir o bolystyren, teganau plastig yr ardd, a rhagor.
- Mae Canolfannau Ailgylchu yn y Gymuned YN derbyn gwastraff nad oes modd ei ailgylchu, ond bydd hawl gan staff i edrych mewn bagiau a bydd gofyn i chi ddidoli unrhyw eitemau mae modd eu hailgylchu cyn derbyn y bagiau.
- Fyddwn ni ddim yn goddef achosion o adael gwastraff yn anghyfreithlon yn Rhondda Cynon Taf. Os gwnewch chi hynny, byddwch chi'n cael eich dal ac yn wynebu dirwy fawr.
- Os ydy'ch amgylchiadau personol chi yn ei gwneud hi'n anodd i chi gadw at y cyfyngiad pythefnosol, cysylltwch â ni er mwyn inni weld beth allwn ni'i wneud i'ch cynorthwyo chi. Rydyn ni'n addo bod mor hyblyg ag sy'n bosibl mewn amgylchiadau diamau. Cysylltwch â ni cyn gynted ag sy'n bosibl trwy e-bostio gwasanaethauigwsmeriaid@rhondda-cynon-taf.gov.uk neu ffonio 01443 425001

**MAE'R DEWIS YN GLIR. RCTCBC.GOV.UK/AILGYLCHU**

RHONDDA CYNON TAF